



11 Rhagfyr, 2015

Annwyl

Cwyn mewn perthynas ag ATISN 9855

Ysgrifennais atoch ar 18 Tachwedd mewn ymateb i'ch cwyn ar e-bost a welais ar 16 Tachwedd. Rwyf wedi cynnal adolygiad mewnol yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yng nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth. Mae'r canllaw ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngrwyd.

Nodaf mewn ymateb i'ch cais am gostau'r arddangosfeydd a gynhaliwyd ym mis Medi i hyrwyddo ein gwaith ar yr M4, fesul categori, y dywedwyd wrthy ch nad oedd gennym yr wybodaeth hon am fod costau'r arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn rhan o gostau gwaith datblygu cyffredinol y prosiect. Cynhaliwyd y gwaith hwnnw gan y contractwyr a benodir ac nid yw'r costau wedi'u rhannu'n ôl gweithgareddau unigol.

Yn eich e-bost ar 15 Tachwedd, dywedoch eich bod yn ei chael yn anodd credu nad oedd modd inni ddarganfod cost yr arddangosfeydd gan fod y contractwr yn gweithio ar ein rhan.

Rwyf wedi adolygu'r mater a gallaf gadarnhau bod y costau fel a ganlyn:

Costau staff - £175,259

Llogi lleoliadau - £3,952

Hysbysebion cyhoeddus - £26,831

Cyfieithu - £1,160

Deunyddiau arddangos a logisteg statig ac ar-lein - £82,325

I gloi, rwy'n derbyn eich cwyn a hyderaf fod yr ymateb hwn bellach yn ateb eich cais gwreiddiol.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb uchod i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad hwn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.



Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

www.gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

Simon Jones
Cyfarwyddwr - Trafnidiaeth